Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Trelai Park Dental Clinic, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 29 Ebrill 2024
Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-448-5
© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 18

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 19

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith ........ 21

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Trelai Park Dental Clinic, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 29 Ebrill 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 34 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff yn Trelai Park Dental Clinic yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Nododd pob un o'r 34 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn. Gwelsom hefyd fod y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd y practis hefyd yn gwbl hygyrch, gyda phob ystafell glinig ar y llawr gwaelod a thoiled hygyrch i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd y staff yn cynnal cyfrinachedd y cleifion drwy sicrhau bod drysau'r deintyddfeydd bob amser ar gau yn ystod apwyntiadau
- Roedd llawer o wybodaeth i gleifion i'w gweld yn yr ystafell aros ac ardal y dderbynfa.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith yn y lleoliad i reoli heintiau. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd hyfforddiant gorfodol i'r holl staff, a oedd yn cynnwys rheoli heintiau a diogelwch tân, hefyd yn gyfredol.

Roedd hi'n glir bod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr ardaloedd clinigol a chymunedol yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Mae'n ofynnol i'r practis gofnodi'r weithred o ddraenio a chynnal gwiriadau ar yr awtoclaf ar ddiwedd pob diwrnod.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf
- Roedd gan y practis bolisïau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn Trelai Park Dental Clinic.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i'r holl staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Rwyf wedi bod yn mynychu'r ddeintyddfa hon ers blynyddoedd lawer - rwyf bob amser yn fodlon ar y driniaeth a gaf - mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn barod i helpu."*

*"Ni fyddwn byth yn mynd at ddeintydd arall. Mae pob aelod o staff y ddeintyddfa yn amyneddgar ac yn arbennig."*

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**
Roedd 33 o'r 34 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiwn hwn. Dywedodd 32 o'r ymatebwyr wrthym hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da. Ni wnaeth y ddau ymatebydd arall roi ateb.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (33/34) fod y tîm deintyddol wedi holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiwn hwn. O'r 34 o ymatebwyr, roedd 30 yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt neu argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu. Roedd un claf yn anghytuno â hyn, atebodd claf arall drwy nodi 'ddim yn berthnasol', a dewisodd y ddau arall beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Roedd enw'r practis i'w weld yn amlwg y tu allan i'r practis, ynghyd â gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng.

Roedd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael yn y dderbynfa ac ardaloedd aros y practis. Roedd arwyddion 'dim smygu' i'w gweld yn glir yn yr ardal gymunedol hefyd.

**Gofal urddasol a pharchus**

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd drysau pob deintyddfa yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau gan roi digon o breifatrwydd ar gyfer sgyrsiau cyfrinachol.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau i gyd yn ystod eu hapwyntiad (33/33).

Roedd yn amlwg bod y staff yn gweithio'n galed i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â phob un o'r cleifion. Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn ddwyieithog yn yr ardal aros.

### Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael iddynt (33/33).

O'r 34 o gleifion a gwblhaodd holiadur, dywedodd 32 ohonynt wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Nododd un claf nad oedd wedi cael ei gynnwys gymaint ag yr oedd am gael ei gynnwys ac ni atebodd yr ymatebydd arall y cwestiwn hwn.

## Amserol

### Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym mai prin oedd yr oedi gydag apwyntiadau. Fodd bynnag, pan oedd unrhyw oedi, byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion yn yr ardal aros ac yn rhoi cynnig iddynt aildrefnu eu hapwyntiad os nad oeddent yn gallu aros. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw oedi yn ddigon ymlaen llaw lle gellid bod wedi cysylltu â chlaf cyn iddynt gyrraedd y practis ar gyfer eu hapwyntiad.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd unrhyw system trefnu apwyntiadau ar-lein ar waith yn y practis. Gallai cleifion ond trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu'n bersonol wrth ddesg y dderbynfa.

Dywedwyd wrthym fod slotiau dynodedig ar gael ar gyfer apwyntiadau brys. Gallai'r rhain hefyd gael eu trefnu yn bersonol yn y practis neu dros y ffôn.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr ei bod yn 'hawdd iawn' (28/34) neu'n 'eithaf hawdd' (6/34) cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod un aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg. Yn ystod yr arolygiad, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd yr aelod hwn o'r staff yn gwisgo bathodyn Iaith Gwaith wrth weithio. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi cael tystiolaeth ffotograffig bod laniard a bathodyn Iaith Gwaith wedi cael eu harchebu a bod yr aelod o'r staff yn eu defnyddio yn y practis.

Roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol pe bai claf yn dymuno cyfathrebu mewn iaith arall. Gwelsom hefyd fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros, yr oedd elfennau ohoni ar gael yn ddwyieithog.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym gallai dogfennau print bras gael eu darparu ar gais.

Roedd rhestr staff gyfredol i'w gweld yn glir yn yr ardal aros ac roedd copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael hefyd. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys y wybodaeth ganlynol sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017:

- Y trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi cyflogeion
- Y trefniadau ar gyfer mynediad i'r safleoedd
- Hawliau a chyfrifoldebau'r cleifion
- Manylion yr unigolion sy'n gallu gweld gwybodaeth am gleifion a hawl y claf mewn perthynas â datgelu gwybodaeth o'r fath.

Ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y wybodaeth uchod wedi cael ei hychwanegu at y daflen wybodaeth i gleifion. Mae'r ddogfen hon bellach yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

### Hawliau a chydraddoldeb

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr a pholisi cyfle cyfartal i staff ar waith. Gwnaethom gadarnhau hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd Trelai Park Dental Clinic yn cynnig mynediad llawn i bobl anabl ar gyfer ei gleifion. Roedd desg y dderbynfa, yr ardal aros a phob deintyddfa ar y llawr gwaelod ac roedd toiled hygyrch ar gael hefyd.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**
Roedd yn amlwg fod Trelai Park Dental Clinic yn cael ei gynnal i safon uchel, yn fewnol ac yn allanol. Roedd gan y practis ardal aros fawr, a oedd yn addas ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Roedd dwy ffenestr ar ddesg y dderbynfa, un a oedd ar wahân i'r ardal aros ac un yn yr ystafell.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi parhad busnes cynhwysfawr ar waith, yn ogystal â pholisi cynnal a chadw adeiladau helaeth.

Rhoddodd y staff gopi i ni o asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar gyfer y practis. Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai tân. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith. Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân.

Roedd arwyddion clir ar gyfer allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng, ac roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn ardal derbynfa'r practis.

Yn ystod ein hymweliad, rhoddodd y staff wybod i ni eu bod yn atgoffa ei gilydd ar lafar yn ddyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn diffodd y cywasgydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw restr wirio ar waith i sicrhau bod y weithred hon yn cael ei chyflawni. Ers ein harolygiad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod rhestr wirio wedi cael ei chreu a'i rhoi ar waith i sicrhau bod y dasg hon yn cael ei chwblhau bob dydd.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom dystiolaeth bod polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn y practis.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer dihalogi cyfarpar. Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da a gwelsom fod yr offer wedi'i ddyddio a'i storio'n briodol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd drws yr ystafell ddihalogi ar gau bob amser yn ystod cylchoedd yr awtoclaf. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff ac argymell y dylid gosod colynnau cau awtomatig ar y drws er mwyn sicrhau ei fod ar gau yn ystod pob cylch awtoclaf. Ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y practis wedi cael y colynnau cau priodol a gwelsom dystiolaeth fideo ohonynt yn cael eu gosod ar y drws.

Roedd tair deintyddfa yn Trelai Park Dental Clinic, ond dim ond un oedd yn cael ei defnyddio fel deintyddfa weithredol. Gwelsom dystiolaeth fod rhestrau gwirio dyddiol ar waith yn y ddeintyddfa, lle roedd y staff yn cynnal gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion draenio'r awtoclaf a'r gwiriadau gweledol o'r peiriant wedi'u cynnal fel rhan o'r gwiriadau ar ddiwedd y dydd.

**Mae'n ofynnol i'r practis gofnodi'r weithred o ddraenio a chynnal gwiriadau ar yr awtoclaf ar ddiwedd pob diwrnod.**

Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom fod meddyginiaethau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn cael eu cadw mewn cynwysyddion offer miniog i'w gwaredu. Ers ein harolygiad, rydym wedi cael tystiolaeth o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith lle mae'r staff yn mynd â'r feddyginiaeth nad yw'n cael ei defnyddio i'r fferyllfa leol er mwyn ei gwaredu.

Wrth edrych ar hyfforddiant staff, gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

**Rheoli meddyginiaethau**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig na chaiff unrhyw feddyginiaethau eu storio yn y practis, heblaw am feddyginiaeth frys. Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith.

Tynnodd ein hadolygiad o'r cyfarpar brys sylw at y ffaith bod dyddiad defnyddio ar gyfer y masgiau wyneb, y llwybrau anadlu a'r tiwbiau ocsigen ar gyfer oedolion a phlant wedi mynd heibio. Archebodd y rheolwr cofrestredig gyfarpar newydd yn lle'r cyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio yn ystod ein hymweliad ac rydym wedi cael tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar gofynnol wedi cyrraedd y practis. Roedd hwn yn fater uniongyrchol yr aethpwyd i'r afael ag ef ar

y safle yn ystod ein harolygiad ac mae wedi'i gofnodi yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Roedd gan y practis system ar waith i wirio cyffuriau a chyfarpar brys. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal yn fisol, yn hytrach na phob wythnos fel y nodwyd gan y Cyngor Adfywio (y DU). Ers ein hymweliad, rydym wedi cael tystiolaeth bod cofnodlyfr wythnosol wedi'i roi ar waith i gofnodi gwiriadau wythnosol o'r holl gyffuriau a'r cyfarpar brys.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y practis a gwnaethom gadarnhau bod yr holl eitemau yn gyfredol. Y rheolwr cofrestredig oedd y swyddog cymorth cyntaf dynodedig ar gyfer y practis ac, fel yr unig ddeintydd, roedd yn bresennol yn ystod pob diwrnod gwaith.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwnaethom gadarnhau fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Dadebru Cardio-pwlmonaidd (CPR) diweddaraf.

**Diogelu plant ac oedolion**

Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r practis. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion cyswllt lleol i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac wedi cael y lefel briodol o hyfforddiant.

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu gorffen i safon dda.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopi o'r dystysgrif prawf pelydr-X mwyaf diweddar i ni. Roedd y dystysgrif hon yn gyfredol ac yn cadarnhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, ni welsom gopïau o'r tystysgrifau hanesyddol. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff ac argymell y dylid cadw'r tystysgrifau hanesyddol a'r tystysgrifau cyfredol yn y practis yn y dyfodol fel cofnod o drywydd archwilio

clir. Cadarnhaodd y staff y byddai'r holl dystysgrifau blynyddol a'r tystysgrifau profion bob tair blynedd yn cael eu cadw gyda'i gilydd yn y practis yn y dyfodol.

Yn ystod ein hymweliad, roedd poster yn cael ei arddangos yn ardal aros y practis a oedd yn nodi risgiau a manteision archwiliadau pelydr-X.

## Effeithiol

### Gofal effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

### Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi anghysondebau wrth gofnodi'r wybodaeth isod:

- Sgrinio ar gyfer canser y geg
- Dewis iaith y cleifion
- Cydsyniad
- Gwybodaeth am hylendid y geg
- Cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Asesiad risg Canser y geg.

Ers ein harolygiad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y deintydd yn y lleoliad wedi rhoi taflen awgrymiadau ar waith i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chofnodi'n gyson yng nghofnodion cleifion yn y dyfodol.

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Gwelsom dystiolaeth bod strwythurau rheoli clir ar waith ym mhractis Trelai Park Dental Clinic.

Rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd yn amlwg fod y ddau yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig neu'r deintyddion arweiniol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff y gwnaethom gwrdd â nhw yn ystod yr arolygiad yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod rhestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff. Roedd pob polisi yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Cawsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chawsom gadarnhad bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith hefyd. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Roedd gan y practis ddatganiad cyfredol o ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau cyfredol sydd ar waith mewn perthynas â recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau a phrosesau goruchwylio blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer y staff. Wrth edrych ar ffeiliau'r staff, gwnaethom gadarnhau hefyd fod y staff wedi cael brechiadau Hepatitis B a bod gwiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Gwnaethom edrych ar gofnodion

hyfforddiant y staff hefyd a chadarnhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith yn y practis.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer gofyn am adborth gan gleifion. Practis deintyddol bach oedd Trelai Park Dental Clinic a rhoddodd y staff wybod i ni fod y cleifion yn gyfarwydd iawn â'r staff ac yn gyfforddus wrth roi adborth ar lafar oherwydd hyn. Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn aml yn rhoi adborth ar lafar i staff y dderbynfa. Yna, caiff yr adborth hwn ei drafod ymhlith aelodau'r tîm mewn cyfarfodydd staff.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn glir wrth ddesg y dderbynfa ac yn yr ardal aros. Roedd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel enw'r person a oedd y gyfrifol am ymdrin â chwynion yn y practis, amserlenni ar gyfer delio â chwynion a manylion cyswllt AGIC.

O'r 34 o gleifion a ymatebodd i'r holiadur, dywedodd 28 wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth. Atebodd pedwar claf ‘ddim yn gymwys’ a phenderfynodd y ddau arall beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**
Gwnaethom gadarnhau bod systemau digonol ar waith yn y practis i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion. Mae'r practis yn defnyddio RIDDOR i gofnodi'r wybodaeth hon. Dywedwyd wrthym fod unrhyw wybodaeth yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael ei rhannu ag aelodau'r tîm yn ystod cyfarfodydd staff ac y byddai'n cael ei huwchgyfeirio at y bwrdd iechyd lle bo angen.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu storio yn ardal derbynfa'r practis. Roedd rhai o'r rhain yn cael eu storio mewn cabinetau gwrth-dân priodol y gellir eu cloi, ond roedd y rhai eraill yn cael eu storio mewn droriau nad oedd posibl eu cloi. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwr cofrestredig ar unwaith yn sgil y risg i ddiogelwch gwybodaeth. Pan roeddem ar y safle, archebodd y staff gabinet arall y gellir ei gloi i storio'r cofnodion cleifion eraill ynddo ac ers hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y cabinet wedi

cyrraedd y practis. Roedd hwn yn fater uniongyrchol yr aethpwyd i'r afael ag ef ar y safle yn ystod ein harolygiad ac mae wedi'i gofnodi yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd polisi sicrhau ansawdd cynhwysfawr ar waith yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rhoi'r gorau i smygu, archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau ac archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi cwblhau archwiliad o gardiau cofnodion eto. Fodd bynnag, ers ein hymweliad, rydym wedi gweld tystiolaeth bod yr archwiliad hwn wedi'i gwblhau.

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**
Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni am y ffyrdd y mae'r practis yn defnyddio systemau rheoli ansawdd allanol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio eDen a Compass ar gyfer data a metrigau'r GIG.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Tynnodd ein hadolygiad o'r cyfarpar brys sylw at y ffaith bod dyddiad defnyddio ar gyfer y masgiau wyneb, y llwybrau anadlu a'r tiwbiau ocsigen ar gyfer oedolion a phlant wedi mynd heibio. | Roedd hyn yn peri risg i unrhyw glaf yr oedd angen iddo ddefnyddio'r cyfarpar hwn ac nid oedd posibl sicrhau ei effeithiolrwydd gan fod dyddiad defnyddio'r eitemau wedi mynd heibio. | Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ar unwaith, gan roi gwybod iddo fod y cyfarpar y mae'r dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio yn achos o dorri'r rheoliadau ac yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion. | Archebodd y rheolwr cofrestredig gyfarpar newydd yn lle'r cyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio yn ystod ein hymweliad ac rydym wedi cael tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar gofynnol wedi cyrraedd y practis. |
| Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu storio yn ardal derbynfa'r practis. Nid oedd rhai o'r rhain yn cael eu | Roedd hyn yn peri risg diogelwch uniongyrchol gan nad oedd y cofnodion a oedd yn cael eu storio | Gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwr cofrestredig ar unwaith yn sgil y risg i | Pan roeddem ar y safle, archebodd y staff gabinet gwrth-dân arall y gellir ei gloi i storio'r cofnodion cleifion eraill ynddo. Ers |

| | | | |
|---|---|---|---|
| storio'n briodol gan eu bod yn cael eu cadw mewn droriau nad oedd posibl eu cloi. | yn y droriau hyn yn ddiogel a gan y byddai unrhyw un a oedd yn bresennol yn swyddfa'r dderbynfa yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. | ddiogelwch gwybodaeth. | hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth bod y cabinet hwn wedi cyrraedd y practis. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Trelai Park Dental Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 29/04/24

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Trelai Park Dental Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 29/04/24

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Gwelsom dystiolaeth fod rhestr wirio ddyddiol ar waith yn y ddeintyddfa; fodd bynnag, nid oedd cofnodion draenio'r awtoclaf a'r gwiriadau gweledol o'r peiriant wedi'u cynnal fel rhan o'r gwiriadau ar ddiwedd y dydd. | **Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gofnodi'r weithred o ddraenio a chynnal gwiriadau ar yr awtoclaf ar ddiwedd pob diwrnod.** | Rheoliad Deintyddiaeth Breifat 13 | Rydym wedi llunio Rhestr Wirio Diwedd y Dydd newydd sy'n cynnwys cofnod o'r gwiriadau gweledol a draenio ar gyfer yr Awtoclaf a ddogfennir gan y staff. | Mitin Kerai | Ar unwaith - Mae'r rhestr wirio bellach yn cael ei defnyddio |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Mitin Kerai**

**Swydd: Deintydd**

**Dyddiad: 01/07/2024**